Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Sandra Salisbury**

**Caernarfon**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Medi 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Good** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Good** |
| **Yr Amgylchedd** | **Adequate** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Adequate** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac mae ganddynt berthynas gynnes gyda'r warchodwraig. Maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth ac yn hyderus i gyfleu eu hanghenion. Cânt gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Mae'r warchodwraig yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n ffeind ac yn cefnogi plant mewn modd cynnes a chadarnhaol. Mae'r warchodwraig yn sicrhau bod y safle, teganau ac adnoddau yn addas ar gyfer y plant. Mae'n cynnal ymarferion tân, ond nid ydynt yn cael eu cofnodi pob amser. Mae gweithdrefnau addas mewn lle i sicrhau bo risgiau posibl yn cael eu rheoli ond nid ydynt yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Mae'r warchodwraig yn rheoli ei gwasanaeth yn briodol ac yn deall y rhan fwyaf o'i chyfrifoldebau rheoleiddiol. Fodd bynnag, nid yw'r polisïau'n cael eu hadolygu'n flynyddol ac, o ganlyniad, nid yw pob polisi yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae'r warchodwraig yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cadw'n gyfredol a bod rhieni yn cael eu hysbysu'n dda am ddatblygiad eu plentyn ac am unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth. Mae rhieni yn canmol ei gwasanaeth.

| Llesiant | Good |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau ynglŷn â sut maent yn treulio'u hamser, ac yn dewis o'r teganau'n annibynnol gan eu bod wedi'u storio o fewn eu cyrraedd. Maent yn hyderus i fynegi eu hunain, ac yn cyfathrebu eu hanghenion yn effeithiol gyda'r warchodwraig. Er enghraifft, roeddynt yn hyderus i ddweud pan oeddynt wedi cael digon o fwyd amser cinio.

Mae'r plant wedi ffurfio perthynas gynnes gyda'r warchodwraig a gyda'i gilydd. Maent yn teimlo'n gyfforddus, yn ddiogel ac yn saff yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, roeddynt yn hyderus i ddod i sgwrsio gyda ni a dangos eu teganau a'u gwaith crefft. Mae'r plant yn hyderus i fynd at y warchodwraig os ydynt yn teimlo'n ansicr ac eisiau cysur. Er enghraifft, roedd plant yn mynd at yr warchodwraig pan oeddynt wedi blino, ac roedd hithau yn rhoi cysur iddynt, ac yn eu setlo i gysgu.

Mae'r plant yn garedig tuag at ei gilydd ac yn rhannu adnoddau'n dda. Maent yn mwynhau siarad gyda'r warchodwraig am yr hyn maent yn ei wneud, ac yn awyddus i'w chynnwys hi yn eu chwarae. Er enghraifft, pan oedd y plant yn chwarae gêm ddychmygol gyda theganau, roeddynt yn awyddus i'r warchodwraig ymuno. Cawsant lawer o hwyl yn chwarae a chreu byd dychmygol gyda theganau deinosor ac anifeiliaid fferm. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael ac yn canolbwyntio'n dda. Er enghraifft, roeddynt yn gwrando'n astud ar y warchodwraig, ac yn dilyn cyfarwyddiadau wrth wneud gweithgaredd creu pypedau "Pudsey" ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen. Roeddynt yn canolbwyntio ac yn cymryd diddordeb yn y dasg.

Mae'r plant yn cael ystod dda o brofiadau, ac yn cael llawer o gyfleon i dreulio amser yn yr awyr agored. Maent yn chwarae yn yr ardd pan mae'r tywydd yn caniatáu, ac hefyd yn cael tripiau rheolaidd i barciau lleol ac i lefydd o ddiddordeb. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu'n gorfforol a chymdeithasol. Mae'r plant yn cael eu hannog i wneud pethau yn annibynnol drostynt ei hunain, fel tacluso ar ddiwedd gweithgareddau a bwydo eu hunain. Mae hyn yn eu helpu i fagu hyder ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth.

## Gofal a Datblygiad — Good

Mae'r warchodwraig yn deall ei chyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn saff a diogel. Mae'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddi bryder diogelu am blentyn, ac mae wedi sicrhau ei bod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf am ddiogelu plant. Mae gan yr warchodwraig dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, sydd yn ei galluogi i roi cymorth cyntaf brys os oes angen. Mae'n cadw cofnod priodol o ddamweiniau, gyda'r rhieni'n arwyddo'r cofnod hwn.

Mae'r warchodwraig yn hyrwyddo arferion iach yn dda ar y cyfan. Mae'n darparu cyfleon i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol drwy eu hannog i chwarae allan yn yr awyr iach, a sicrhau bod cyfleon diddorol i wneud hyn yn rheolaidd. Mae'r warchodwraig yn paratoi ac yn darparu prydau a byrbrydau iach a maethlon ac yn cynnig dŵr neu lefrith i'w yfed. Mae'n sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo gyda dŵr a sebon ar ôl defnyddio'r toiled. Fodd bynnag, nid yw'r warchodwraig yn annog y plant i ddilyn yr un broses cyn bwyta sy'n codi'r risg o ledaenu haint.

Mae'r warchodwraig wedi meithrin perthynas bositif gyda'r plant. Mae'n hybu rhyngweithio cadarnhaol yn llwyddiannus ac yn trin y plant â pharch. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn adnabod eu hoffterau. Er enghraifft roedd llawer o sgyrsiau rhwng y warchodwraig a'r plant am eu teuluoedd a'u diddordebau. Mae ganddi sgiliau a strategaethau priodol i ddelio gydag ymddygiad annerbyniol , a gwelsom ei bod yn llwyddo ailgyfeirio a thynnu sylw'r plant mewn modd di ffwdan ar sawl achlysur.

Mae'r warchodwraig yn trefnu ystod o weithgareddau diddorol er mwyn rhoi cymorth i blant ddatblygu drwy chwarae, a dysgu mewn modd cadarnhaol. Mae'n cwblhau cofnodion o'u datblygiad ac yn defnyddio ei harsylwadau er mwyn cynllunio ar gyfer eu dysgu yn y dyfodol. Mae'n rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni ynglŷn â datblygiad y plant drwy negeseuon preifat, drwy lyfr cyswllt dyddiol, a thrwy drafodaethau ar lafar gyda'r rhieni ar ddiwedd y dydd.

## Yr Amgylchedd **Adequate**

Mae’r warchodwraig yn darparu amgylchedd glan a diogel i’r plant. Mae’r drws ffrynt wedi’i gloi ac mae cyfarpar diogelwch megis giatiau grisiau wedi eu gosod yn y mannau priodol. Mae offer glanhau wedi eu cadw yn saff allan o gyrraedd y plant. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd, ond nid oes cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cadw. Mae’r warchodwraig yn cwblhau asesiadau risg, ond nid oedd yr rhain yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Mae’r warchodwraig yn sicrhau fod ganddi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

Mae'r warchodwraig yn darparu amgylchedd gartrefol a cyfeillgar i’r plant, gydag ystafell chwarae bwrpasol, dodrefn, teganau ac adnoddau sy’n addas i’w hoedran a’u datblygiad ar gael. Mae cynllun yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, ac yn eu galluogi i symud o gwmpas yn rhydd a gwneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae esiamplau o waith y plant yn cael eu harddangos ar y waliau, sy’n creu ymdeimlad o berthyn. Mae ardal bwrpasol i’r plant yn yr ardd, gydag adnoddau addas megis sleid, tŷ bach twt a blociau.

Mae ystod eang o deganau ac adnoddau ar gael i’r plant, er enghraifft, trenau a traciau trên, doliau ac adnoddau celf a crefft. Darperir dewis eang o lyfrau Cymraeg a Saesneg. Mae defnyddiau naturiol a defnyddiau wedi eu hailgylchu yn yr ystafell chwarae, sydd yn cyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Er enghraifft roedd hambwrdd gyda moch coed, ac roedd gwaith celf wedi ei greu gyda deunyddiau naturiol wedi ei arddangos yn yr ystafell chwarae. Mae’r teganau a’r adnoddau yn lân, mewn cyflwr da, ac mae’r warchodwraig yn cadw cofnod o pryd y bydd yn eu glanhau. Maent wedi eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi plant allu gael mynediad rhwydd atynt. Mae hyn yn hybu eu hannibyniaeth i estyn a dewis pethau drostynt eu hunain. Mae’r warchodwraig yn sicrhau bod offer ar gael i hybu annibyniaeth y plant ieuengaf. Er enghraifft, mae gris, poti a sedd toiled bwrpasol ar gyfer cynorthwyo’r plant sy’n dysgu i ddefnyddio’r toiled.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Adequate**

Mae gan y warchodwraig ddealltwriaeth ddigonol o'i rôl, a'i chyfrifoldebau rheoleiddiol. Darperir ystod o bolisïau i'w galluogi i redeg ei gwasanaeth ond nid yw pob amser yn sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. O ganlyniad, nid oedd rhai o bolisïau'r warchodwraig yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, derbyniwyd copïau diwygiedig yn ystod cyfnod yr arolygiad. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi disgrifiad eglur a chywir o'r gwasanaeth a gynigir, gan ddarparu rhieni â digon o wybodaeth i wneud dewis gwybodus am ofal eu plentyn.

Mae'r warchodwraig yn casglu adborth yn rheolaidd gan rieni a phlant. Mae'r adroddiad ansawdd blynyddol yn cynnwys y gwelliannau mae hi wedi eu gwneud megis y cyrsiau mae hi wedi eu mynychu. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am welliannau sydd wedi eu cynllunio at y dyfodol megis y bwriad o fynd a'r plant i nofio i'r ganolfan hamdden leol.

Mae'r warchodwraig wedi sicrhau bod ei gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hi ac aelodau'r cartref yn gyfredol. Mae'n casglu gwybodaeth angenrheidiol am y plant cyn iddynt fynychu sydd yn golygu ei bod yn gallu cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae rhieni'n hapus gyda'r gwasanaeth ac wedi ffurfio perthynas glos gyda'r warchodwraig. Maent yn teimlo bod y gwasanaeth yn cyfarfod eu hanghenion yn effeithiol. Cadarnha rhieni eu bod yn cael eu hysbysu am ddatblygiad eu plant ar lafar ar ddiwedd y dydd, drwy wybodaeth yn y llyfr cyswllt yn ogystal â derbyn gwybodaeth yn gyson drwy negeseuon preifat. Mae adborth gan y rhieni yn adlewyrchu lefel uchel o foddhad gyda'r lleoliad.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R1. Sicrhau bod cofnodion manwl o ymarferion tân.

R2. Adolygu'r holl bolisïau yn flynyddol i sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth gyfredol.

R3. Adolygu asesiadau risg yn flynyddol er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.

R4. Sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo gyda dwr a sebon, ac yn sychu gyda tyweli papur cyn prydau bwyd

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/01/2023